



Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

**Gylch Meithrin Cwm Derwen
YGG Cwm Derwen
Syr Dafydd Avenue
Oakdale
Gwent
NP12 0JJ**

Dyddiad yr arolygiad: Gorffennaf 2018

gan

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Barn	Yr hyn mae'r farn yn ei olygu
Rhagorol	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
Da	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
Digonol	Mae cryfderau'n gorbwysu'r meysydd i'w gwella
Anfoddhaol	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwysu'r cryfderau

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

www.estyn.llyw.cymru

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn.

© Hawlfraint y Goron 2018: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 13/09/2018

Cyd-destun

Lleoliad cyfrwng Cymraeg yw Cylch Meithrin Cwm Derwen sydd yn cwrdd mewn caban ar safle Ysgol Gymraeg Cwm Derwen yn awdurdod lleol Caerffili. Mae'r lleoliad wedi'i gofrestru i dderbyn 16 o blant rhwng 2 a 4 oed. Mae'n darparu sesiynau addysg y blynyddoedd cynnar rhwng 12:45 y.p. a 3:15 y.p. am 5 diwrnod yr wythnos yn ystod tymor yr ysgol. Yn ystod yr arolygiad, roedd 9 plentyn yn cael eu hariannu am addysg y blynyddoedd cynnar.

Nid oes unrhyw blentyn ag anghenion dysgu ychwanegol yn mynychu'r lleoliad ar hyn o bryd. Daw ychydig iawn o blant o gartrefi sy'n siarad Cymraeg.

Mae'r lleoliad yn cyflogi tri aelod o staff cymwysedig amser llawn ac un rhan amser, gan gynnwys yr arweinydd amser llawn. Penodwyd yr arweinydd i'w swydd ym mis Medi 2015

Arolygwyd y lleoliad ddiwethaf gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ym mis Chwefror 2016 a gan Estyn ym mis Mai 2011.

Crynodeb

Perfformiad presennol y lleoliad	Da
Rhagolygon gwella'r lleoliad	Da

Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn dda oherwydd bod:

- y rhan fwyaf o blant yn gwrando'n dda ac yn caffael yr iaith Gymraeg yn gynnar ar ôl dechrau yn y lleoliad
- medrau rhifedd y rhan fwyaf o blant yn datblygu'n effeithiol gyda llawer yn defnyddio'r wybodaeth i ddatrys problemau syml yn llwyddiannus
- y rhan fwyaf o blant yn canolbwyntio am gyfnodau estynedig ac yn dewis a dyfalbarhau gyda gweithgareddau yn annibynnol
- ymddygiad bron pob un plentyn yn dda
- ymarferwyr yn cynllunio ystod eang o brofiadau dysgu diddorol sy'n ennyn diddordeb y rhan fwyaf o blant yn llwyddiannus
- ymarferwyr yn modelu'r iaith Gymraeg yn fedrus er mwyn datblygu medrau cyfathrebu'r plant yn gadarn
- ymarferwyr yn creu awyrgylch cartrefol a chroesawgar sy'n sicrhau bod bron pob un plentyn yn mwynhau eu hamser yn y lleoliad
- gan y lleoliad ystod eang o adnoddau o safon uchel sydd yn cael eu defnyddio'n effeithiol i gyfoethogi'r cwricwlwm

Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r lleoliad yn dda oherwydd bod:

- gan yr arweinydd weledigaeth glir yn seiliedig ar ddarparu profiadau a gofal o safon uchel i bob plentyn yn y lleoliad
- ymarferwyr yn cyflawni eu rolau a chyfrifoldebau'n effeithiol ac yn cyfrannu'n gadarnhaol i'r addysgu o ddydd i ddydd
- gan y lleoliad drefniadau cadarn ar gyfer adnabod ei gryfderau a llawer o'r meysydd ar gyfer gwella
- y lleoliad yn defnyddio'r broses cynllunio ar gyfer gwelliant yn fuddiol i wella agweddau o arweinyddiaeth, y ddarpariaeth a deilliannau plant
- gan y lleoliad ystod eang o bartneriaethau sy'n gwella ansawdd y ddarpariaeth ac yn cael effaith dda ar safonau a lles y plant
- arweinwyr yn blaenoriaethu cyllid i wella'r ddarpariaeth yn gyson

Argymhellion

- A1 Cynllunio gweithgareddau ffocws yn fwy effeithiol er mwyn datblygu medrau'r plant yn systematig
- A2 Gwella'r defnydd o wybodaeth asesu i gynllunio camau nesaf yn y dysgu yn fwy effeithiol
- A3 Datblygu rôl y pwyllgor rheoli i werthuso a monitro gwaith y lleoliad

Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd yr awdurdod lleol yn monitro cynnydd y lleoliad.

Prif ganfyddiadau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Da

Safonau: Da

Mae'r rhan fwyaf o blant yn dechrau yn y lleoliad gyda medrau sy'n ddisgwylidig ar gyfer eu hoed. Yn gyffredinol, mae'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau yn ystod eu hamser yn y lleoliad. Mae'r rhan fwyaf yn adalw dysgu blaenorol yn llwyddiannus, er enghraifft wrth drafod cylch bywyd y pili-pala.

Er bod bron pob un plentyn yn dechrau yn y lleoliad heb y gallu i siarad Cymraeg, maent yn caffael yr iaith yn gyflym. Mae'r rhan fwyaf yn gwrando'n dda yn ystod cyflwyniadau a gweithgareddau. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o'r Gymraeg ac yn ymateb i gyfarwyddiadau gan oedolion yn effeithiol. Gydag anogaeth, mae llawer o blant yn dechrau defnyddio geirfa a phatrymau cyfarwydd yn llwyddiannus yn ystod gweithgareddau ac amser byrbryd. Mae'r lleiafrif yn defnyddio brawddegau llawn yn annibynnol wrth ymateb yn ystod gweithgareddau, er enghraifft wrth ddisgrifio'u teimladau adeg cofrestru. Mae'r rhan fwyaf o blant yn ymuno â chaneuon yn frwdfrydig. Maent yn mwynhau gwrando ar storïau. Maent yn trin llyfrau yn briodol, gan droi'r tudalen yn gywir ac yn dilyn y print yn ofalus. Mae ychydig o blant hŷn yn efelychu oedolion yn adrodd storïau'n hyderus i weddill y plant, gan ddefnyddio geirfa o'r stori yn gywir. Mae medrau ysgrifennu cynnar llawer o blant yn datblygu'n dda. Er enghraifft, mae llawer o blant yn defnyddio marciau i ysgrifennu rhestr siopa ar gyfer parti'r lindysyn.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwneud cynnydd da yn eu medrau rhif ac yn defnyddio iaith fathemategol yn llwyddiannus fel rhan o'u chwarae. Maent yn adrodd rhifau yn hyderus hyd at 10. Yn gyffredinol, mae llawer o blant yn cyfrif gwrthrychau hyd at 5 yn hyderus, er enghraifft wrth gyfrif faint o bili-palaod sydd wedi deor o'u cocŵn. Mae'r rhan fwyaf o'r plant ieuengaf yn cyfrif ffrwythau yn hyderus hyd at 3 er mwyn eu gosod mewn basged siopa, tra bod y plant hŷn yn tynnu un i ffwrdd yn gywir. Mae ychydig o blant yn dechrau deall y gwahaniaeth rhwng rhifau gwrywaidd a benywaidd yn y Gymraeg yn dda wrth gyfrif y nifer o fechgyn a merched sy'n bresennol. Mae llawer o blant yn dechrau adnabod siapiau 2D yn hyderus. Mae'r mwyafrif o blant yn defnyddio'u medrau rhif i ddatrys problemau syml yn llwyddiannus. Er enghraifft, ar ôl prynu hadau o'r ganolfan arddio, maent yn casglu'r nifer cywir o botiau ar gyfer tyfu'r hadau.

Yn gyffredinol, mae medrau technoleg gwybodaeth chyfathrebu (TGCh) llawer o blant yn datblygu'n gadarn. Maent yn defnyddio ystod eang o gyfarpar technoleg yn gymwys wrth weithio ar draws yr ardaloedd dysgu. Er enghraifft, mae plant yn defnyddio'r camera digidol yn hyderus wrth dynnu lluniau o'u gweithgareddau ac yn defnyddio'r datguddiwr metel i chwilio am fwydydd o'r stori 'Y Lindysyn Llwglyd lawn' yn y twba tywod.

Mae medrau corfforol y rhan fwyaf o blant yn datblygu'n gadarn, er enghraifft wrth reidio sgwteri a beiciau o gwmpas yr ardal tu allan. Mae gan y rhan fwyaf o blant medrau creadigol effeithiol ac yn gwneud dewisiadau synhwyrol allan o ddewis o gyfryngau i greu lluniau yn yr ardal greadigol. Mae llawer o blant yn dechrau arsylwi ar bethau byw yn ofalus i beintio lluniau eu hunain yn annibynnol.

Lles: Da

Mae bron pob un o'r plant yn cyrraedd a gadael y lleoliad yn hapus. Maent yn mwynhau'r gweithgareddau ac yn gweithio'n hyderus gyda phlant eraill, er enghraifft wrth chwarae rôl yn y ganolfan arddio. Mae bron pob un yn dangos agweddau cadarnhaol tuag at brofiadau newydd, fel gofalu am lysiau a ffrwythau yn yr ardal tu allan. Mae'r rhan fwyaf yn dechrau mynegi eu barnau a'u hoffterau personol yn effeithiol, er enghraifft wrth drafod eu hoff fwyd a hoff liwiau.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn canolbwyntio ar eu gweithgareddau am gyfnod estynedig. Maent yn dangos diddordeb a dyfalbarhad yn eu dysgu ac yn mwynhau'r gweithgareddau ym mhob maes dysgu. Mae'r rhan fwyaf yn gwneud dewisiadau synhwyrol yn ystod chwarae rhydd; er enghraifft, maent yn penderfynu symud o un ardal ddysgu i un arall yn hollol annibynnol. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o'r plant yn ddysgwyr hyderus.

Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda. Mae ganddynt berthynas dda â'r ymarferwyr ac maent yn uniaethu'n dda â'i gilydd. Mae bron pob un o'r plant yn gwrando'n ofalus ar oedolion.

Mae bron pob un o'r plant yn hapus i helpu ei gilydd ac yn dangos gofal a phryder am bobl eraill. Er enghraifft, maent yn pasio platiau a bwyd yn ystod amser byrbryd ac yn gofyn am gewyn a bwyd er mwyn gofalu am y doli. Mae gan lawer o blant ddealltwriaeth addas o sut y gallant gadw'n iach. Maent yn golchi eu dwylo ar ôl chwarae a chyn amser byrbryd. O ganlyniad, maent yn dysgu sut i ofalu am eu hunain a phobl eraill yn gadarnhaol.

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?	Da
--	-----------

Profiadau dysgu: Digonol

Mae'r ymarferwyr yn cynllunio ystod eang o brofiadau dysgu diddorol sy'n ennyn diddordeb y rhan fwyaf o blant yn llwyddiannus. Mae'r ymarferwyr yn cyfrannu'n bwrpasol i gyd-gynllunio cwricwlwm ysgogol sy'n bodloni gofynion y cyfnod sylfaen yn addas, er nid yw'r plant yn cymryd rhan ddigon cryf yn y broses hon.

Drwy'r defnydd effeithiol o'r ardaloedd dysgu tu fewn a thu allan, mae ymarferwyr yn cynllunio gweithgareddau sy'n cyfoethogi dysgu'r plant yn llwyddiannus; er enghraifft, maent yn annog plant i archwilio ffyrdd o symud gwrthrychau i lawr cafnau o'r twba dŵr. Maent yn cynllunio gweithgareddau gwerthfawr i ddatblygu annibyniaeth y plant a'u gallu i archwilio'n bwrpasol. Yn gyffredinol, mae ymarferwyr yn sicrhau cydbwysedd addas rhwng gweithgareddau o dan arweiniad oedolyn a gweithgareddau i blant weithio'n annibynnol. Fodd bynnag, nid yw tasgau ffocws yn cael eu cynllunio'n ddigon bwriadus er mwyn sicrhau bod pob plentyn yn datblygu eu medrau'n systematig ac yn cael eu herio'n gyson.

Mae'r ymarferwyr yn cynllunio gweithgareddau defnyddiol ar gyfer datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh y plant. Mae'r cynllunio ar gyfer datblygu medrau Cymraeg y plant yn datblygu'n effeithiol. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn sicrhau cyfleoedd cyson i ddatblygu medrau llythrennedd y plant drwy gydol y sesiynau gyda chyfleoedd iddynt ddysgu patrymau a geirfa newydd. Mae'r ymarferwyr yn cynllunio

gweithgareddau priodol ar gyfer datblygu medrau rhifedd y plant, er enghraifft drwy annog plant i gyfrif bwyd o'r stori a'i osod mewn basged siopa. Mae'r cynllunio ar gyfer TGCh yn datblygu'n briodol gyda chyfleoedd perthnasol i ddatblygu medrau plant drwy arbrofi gydag ystod o adnoddau. Fodd bynnag, yn gyffredinol, nid yw ymarferwyr yn cynllunio'n ddigon trwyadl i sicrhau eu bod yn datblygu'r ystod lawn o fedrau yn gynyddol ar draws yr ardaloedd dysgu.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu'r iaith Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig yn dda. Mae'r defnydd o gynllun strwythuredig ar gyfer datblygu'r iaith Gymraeg yn cael effaith gadarnhaol ar fedrau iaith y staff ac, o ganlyniad, medrau iaith y plant. Er enghraifft, mae'r ymarferwyr yn sicrhau cyfleoedd cyson i atgyfnerthu'r iaith yn ystod y sesiwn gan annog y plant i ateb cwestiynau penodol yn gywir. Drwy weithgareddau diddorol fel pobi pice ar y maen a dathliadau fel Dydd Gŵyl Dewi, mae'r plant yn datblygu ymwybyddiaeth gadarn o draddodiadau a dathliadau Cymreig. Ategir hyn yn llwyddiannus gydag ymweliadau â'r Wyl Feithrin, sydd yn dangos i'r plant bod yr iaith yn fyw yn y gymuned.

Cyfoethogir y cwricwlwm yn effeithiol gyda'r defnydd o ymwelwyr ac ymweliadau. Mae'r defnydd o arbenigedd cerddoriaeth allanol ar gyfer dysgu cerddoriaeth i'r plant yn cael effaith gadarnhaol ar fedrau creadigol y plant. Mae ymweliadau'r glanweithydd deintyddol, er enghraifft, yn datblygu ymwybyddiaeth o rolau pobl yn y gymuned yn bwrpasol.

Addysgu: Da

Mae gan yr holl ymarferwyr ddealltwriaeth gadarn o egwyddorion y cyfnod sylfaen. Mae ganddynt ymwybyddiaeth effeithiol o ba bryd i ymyrryd yn chwarae'r plant a phryd i'w gadael i arbrofi â'u syniadau eu hunain. Un o gryfderau'r addysgu yw'r berthynas agos sy'n bodoli rhwng yr holl ymarferwyr a'r plant. Maent yn canmol ymdrechion plant yn gyson ac yn rheoli ymddygiad mewn modd sensitif. Mae hyn yn arwain at awyrgylch ddysgu gefnogol lle y mae'r plant yn mwynhau arbrofi a darganfod pethau newydd drostynt eu hunain.

Mae ymarferwyr yn modelu'r iaith Gymraeg yn llwyddiannus er mwyn datblygu medrau cyfathrebu'r plant yn gadarn. Maent yn gwneud defnydd effeithiol o ganeuon ac yn cyflwyno ymadroddion a geirfa newydd yn bwrpasol. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o blant yn gwneud cynnydd da yn eu medrau Cymraeg ac yn dechrau defnyddio geirfa ac ymadroddion syml wrth chwarae'n annibynnol.

Mae ymarferwyr yn darparu awyrgylch ddysgu ysgogol tu fewn a thu allan. Maent yn defnyddio'u harbenigedd yn bwrpasol i gyfoethogi'r dysgu, er enghraifft drwy gynnig cyfleoedd i blant dyfu blodau a llysiâu ac i ofalu amdanynt yn yr ardal tu allan. Mae ymarferwyr yn defnyddio materion sy'n codi'n naturiol yn ystod y dydd fel modd o addysgu'r plant yn fedrus. Er enghraifft, mae'r ymarferwyr yn defnyddio'r prawf ar y larwm tân i atgoffa'r plant o beth sydd rhaid iddynt ei wneud os ydynt yn clywed y larwm. Yn ystod gweithgareddau ffocws, mae ymarferwyr yn modelu disgwyliadau yn bwrpasol, er enghraifft wrth greu rhestr siopa gyda'r plant ar gyfer parti.

Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer asesu cyflawniad y plant yn gadarn. Mae ymarferwyr yn asesu'r plant gan ddefnyddio proffil y cyfnod sylfaen yn briodol. Maent yn cadw cofnodion manwl o gynnydd y plant yn ystod gweithgareddau a meysydd ar

gyfer gwella. Maent yn ystyried y wybodaeth sy'n deillio o'r asesiadau yn addas wrth gynllunio gweithgareddau, er nid ydynt yn gwneud defnydd digon effeithiol o'r wybodaeth bob tro i gynllunio'r camau nesaf yn y dysgu. Mae rhieni a gofawyr yn derbyn gwybodaeth briodol am gynnydd eu plant drwy nosweithiau agored a thrwy drafodaethau anffurfiol.

Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae ymarferwyr yn creu awyrgylch cartrefol a chroesawgar sy'n sicrhau bod bron pob un plentyn yn mwynhau eu hamser yn y lleoliad. Mae'r lleoliad yn amgylchedd diogel ac mae'r ymarferwyr yn cymryd gofal da o blant pan fyddant yn cyrraedd a phan fyddant yn cael eu casglu. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r lleoliad yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i hyrwyddo datblygiad ysbrydol a moesol y plant. Gwnânt hyn yn effeithiol drwy annog y plant i drafod teimladau yn ystod amser cofrestru a thrwy gyd-addoli ar ddiwedd y sesiwn. Mae ymarferwyr yn cynllunio cyfleoedd gwerthfawr iawn i ddatblygu synnwyr plant o syndod a rhyfeddod am y byd y maent yn byw ynddo. Enghraifft effeithiol o hyn yw arsylwi ar gylch bywyd y pili-pala cyn eu rhyddhau yn yr ardal allanol.

Mae gan y lleoliad drefniadau effeithiol ar gyfer datblygu ymwybyddiaeth plant o bwysigrwydd byw a bwyta'n iach. Er enghraifft, maent yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i blant dyfu llyisiau yn yr ardal tu allan. Mae ymarferwyr yn gwneud defnydd buddiol o amser byrbryd i atgyfnerthu'r negeseuon hyn yn ogystal â datblygu medrau personol a chymdeithasol y plant. Defnyddiant yr amser hwn yn llwyddiannus i bwysleisio'r angen i fod yn deg, i aros eu tro ac i rannu ag eraill. Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i blant ailgylchu bwyd, papur a phlastig. Mae hyn yn datblygu ymwybyddiaeth y plant o gynaliadwyedd yn effeithiol.

Er nad oes plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn mynychu'r lleoliad ar hyn o bryd, mae ganddynt drefniadau priodol er mwyn adnabod anghenion yn gynnar.

Yr amgylchedd dysgu: Da

Mae awyrgylch croesawgar a chynhwysol yn bodoli yn y lleoliad. Mae'r ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda ac yn sicrhau eu bod yn cael mynediad cyfartal i'r holl weithgareddau.

Mae'r ymarferwyr yn rhoi pwyslais rheolaidd ar gydnabod, parchu a dathlu amrywiaeth. Maent yn addysgu'r plant am wahanol wyliau a diwylliannau'r byd yn llwyddiannus, er enghraifft wrth ddathlu'r Flwyddyn Newydd Tsieinaidd a gŵyl Diwali.

Mae gan y lleoliad ystod eang o adnoddau o safon uchel. Mae ymarferwyr yn defnyddio'r adnoddau hyn yn llwyddiannus i gyfoethogi dysgu'r plant tu fewn a thu allan i'r adeilad. Maent yn defnyddio arddangosfeydd lliwgar i ddathlu gwaith y plant yn effeithiol. Mae ymarferwyr wedi datblygu ardal tu allan ysgogol iawn ar gyfer y plant, gydag ystod eang o adnoddau ar gael. Lle'n bosibl, mae ymarferwyr yn sicrhau eu bod yn defnyddio adnoddau bywyd go iawn i gyfoethogi'r cwricwlwm yn dda fel defnyddio blodau a phlanhigion byw yn y ganolfan arddio. Maent yn defnyddio'r ardal allanol yn rheolaidd er mwyn datblygu medrau cymdeithasol a phersonol y plant yn gadarn.

Mae'r lleoliad yn ddiogel ac yn lân. Mae ymwelwyr ac ymweliadau i leoliadau lleol, gan gynnwys y llyfrgell ac amgueddfa San Ffagan ar gyfer yr Ŵyl Feithrin, yn cyfoethogi profiadau dysgu'r plant yn llwyddiannus.

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?	Da
--	-----------

Arweinyddiaeth: Da

Mae'r arweinydd yn rheoli gwaith dyddiol y lleoliad yn gydwytbodol. Mae ganddi weledigaeth glir yn seiliedig ar ddarparu profiadau a gofal o safon uchel i bob plentyn yn y lleoliad. Mae'n rhannu'r weledigaeth hon yn llwyddiannus gyda'r ymarferwyr eraill, rhieni a'r pwyllgor rheoli newydd. Mae'r arweinydd yn gweithio'n agos gyda gweddill yr ymarferwyr i greu ethos o waith tîm. O ganlyniad, maent yn cyflawni eu rolau a chyfrifoldebau'n effeithiol ac yn cyfrannu'n dda i'r addysgu o ddydd i ddydd. Mae'r arweinydd yn chwilio am ffyrdd cyson i wella ei medrau arweinyddiaeth, er enghraifft drwy fanteisio ar hyfforddiant arweinyddiaeth a chydweithio agos gyda'r athrawes ymgynghorol a Mudiad Meithrin. O ganlyniad, mae ei medrau arwain yn datblygu'n effeithiol.

Mae'r arweinydd yn defnyddio cyfarfodydd rheolaidd i drafod materion fel ansawdd y ddarpariaeth ac asesiadau plant. O ganlyniad, mae'r ymarferwyr yn gwneud newidiadau gwerthfawr i'r ddarpariaeth ac adnabod anghenion y plant yn dda. Mae gweithdrefnau rheoli perfformiad priodol ar waith yn y lleoliad sydd yn cyfrannu'n fuddiol at rannu syniadau a sicrhau disgwyliadau uchel ymysg y staff. Mae'r arweinydd yn gwneud defnydd gwerthfawr o'r trefniadau hyn i sicrhau dealltwriaeth gadarn yr holl staff o agweddau o addysgu effeithiol.

Mae'r lleoliad yn rhoi sylw addas i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn awyddus iawn i wella eu medrau Cymraeg ac yn cynllunio'n fanwl er mwyn cyflwyno iaith o safon dda i'r plant. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar fedrau ieithyddol y plant.

Mae aelodau'r pwyllgor rheoli yn newydd iawn i'w rolau. Maent yn dechrau cwrdd yn rheolaidd ac maent yn gefnogol o waith y lleoliad. Er hyn, nid yw rôl y pwyllgor yn cynorthwyo'r lleoliad gyda'i gyfeiriad strategol wedi datblygu'n llawn eto.

Gwella ansawdd: Da

Mae gan y lleoliad drefniadau cadarn ar gyfer adnabod ei gryfderau a llawer o'r meysydd ar gyfer gwella. Mae'r holl ymarferwyr yn cyfrannu at y broses hon yn fuddiol. Yn ddiweddar, mae'r lleoliad wedi cyflwyno llyfr hunanarfarnu, er mwyn i'r ymarferwyr gofnodi eu sylwadau sy'n sicrhau bod y broses o arfarnu gwaith y lleoliad yn digwydd yn barhaus. Mae hyn yn cryfhau'r trefniadau hunanarfarnu yn llwyddiannus ac yn sicrhau bod pob aelod o staff yn teimlo perchnogaeth dros y broses. Er enghraifft, mae ymarferwyr wedi sylwi nad oedd pob plentyn yn cyfathrebu'n hyderus yn ystod amser cofrestru. O ganlyniad, maent wedi addasu trefniadau ar gyfer y cyfnod hwn fel bod yr holl blant yn teimlo'n ddigon hyderus i wneud cyfraniadau i drafodaethau. Fodd bynnag, nid yw'r trefniadau hunanarfarnu'r lleoliad wedi adnabod ychydig o feysydd pwysig ar gyfer gwlliant, fel yr angen i gynllunio'n fwriadus i ddatblygu medrau'r plant yn gynyddol yn ystod sesiynau ffocws.

Yn ddiweddar, mae'r arweinwyr yn defnyddio ystod ehangach o dystiolaeth er mwyn casglu gwybodaeth am gryfderau a meysydd ar gyfer gwelliant, fel arsylwadau unigol. Er eu bod yn eu dyddiau cynnar, mae'r gweithdrefnau hyn yn cryfhau gwybodaeth yr arweinwyr am yr agweddau sydd angen sylw yn dda.

Mae cyswllt agos rhwng deilliannau'r broses hunanarfarnu a'r cynllun datblygu. Mae gan y lleoliad gynllun gwella priodol sydd yn cynnwys targedau perthnasol ar gyfer gwelliant. Mae'r cynllun yn nodi costau a chyfrifoldebau yn ogystal ag amserlen weithredu addas. Mae'r lleoliad yn defnyddio'r broses cynllunio ar gyfer gwelliant yn fuddiol i wella agweddau o arweinyddiaeth, y ddarpariaeth a deilliannau plant. Er enghraifft, fel rhan o'r broses, mae ymarferwyr wedi gweithio i wella'r ardal tu allan. Maent wedi creu ardal ddeniadol ac ysgogol sydd yn cyfoethogi'r cwricwlwm yn dda ac yn cael effaith gadarnhaol ar fedrau personol a chymdeithasol plant.

Gweithio mewn partneriaeth: Da

Mae gan y lleoliad ystod eang o bartneriaethau sy'n gwella ansawdd y ddarpariaeth ac yn cael effaith dda ar safonau a lles y plant.

Mae perthynas gryf yn bodoli rhwng y lleoliad a rhieni. Mae'r ymarferwyr yn rhannu gwybodaeth am weithgareddau'r lleoliad yn gyson trwy gyfryngau cymdeithasol a chylchlythyrau. Mae gweithgareddau fel y 'sach cyswllt cartref' a gweithgareddau achlysurol i rieni gwblhau gyda'u plant yn rhoi syniadau buddiol iddynt ar sut i helpu eu plant. Mae nosweithiau agored hefyd yn rhoi cyfle gwerthfawr i hysbysu rhieni o'r hyn y mae eu plant yn ei ddysgu.

Mae'r lleoliad yn gwneud defnydd effeithiol o ymwelwyr ac ymweliadau ar gyfer cyfoethogi'r cwricwlwm. Mae hyn yn gwneud y plant yn ymwybodol o rolau pobl yn y gymuned, er enghraifft yr heddlu. Mae'r lleoliad yn gwneud defnydd llwyddiannus o'r ardal leol ar gyfer cyfoethogi'r cwricwlwm ac i wneud y plant yn ymwybodol o'u hardal leol. Enghraifft effeithiol o hyn yw ymweliad â'r cartref preswyl adeg Nadolig i ganu carolau.

Mae gan y lleoliad berthynas agos â'r ysgol, ac mae'r arweinydd yn cwrdd â'r athrawes feithrin yn ystod y flwyddyn er mwyn trafod cryfderau ac anghenion plant sy'n trosglwyddo yno. Mae hyn yn sicrhau bod plant yn trosglwyddo i'r ysgol yn esmwyth. Ategir hyn yn effeithiol gydag ymweliadau â'r ysgol, sydd ar yr un safle, er enghraifft ar gyfer perfformio'r cyngerdd Nadolig.

Mae gan ymarferwyr berthynas waith effeithiol â'r athrawes ymgynghorol a Mudiad Meithrin. Maent yn gwrandao ar gyngor yn dda ac yn ymateb i syniadau yn amserol i wneud gwelliannau i'r ddarpariaeth. Yn ddiweddar, mae'r arweinydd wedi ymateb i gyngor i wella agweddau o weithdrefnau hunanarfarnu. Mae hyn wedi cryfhau dealltwriaeth arweinwyr o gryfderau a meysydd ar gyfer gwelliant ac yn gwneud y gweithdrefnau hunanarfarnu yn fwy effeithiol fel prosesau parhaus.

Rheoli adnoddau: Da

Mae'r lleoliad wedi'i staffio'n briodol i addysgu'r cwricwlwm yn effeithiol. Mae'r arweinydd yn sicrhau bod yr ymarferwyr yn cefnogi'r dysgu'n fedrus gan wneud y defnydd gorau o'u profiad a'u harbenigedd.

Mae'r lleoliad yn defnyddio'r broses rheoli perfformiad yn drylwyr i nodi anghenion datblygu'r ymarferwyr. O ganlyniad, mae'r arweinwyr yn sicrhau cyfleoedd priodol iddynt ddatblygu'n broffesiynol. Mae'r lleoliad wedi elwa ar ystod o hyfforddiant gwerthfawr, gan gynnwys hyfforddiant gan yr awdurdod lleol a Mudiad Meithrin. Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar arweinyddiaeth, y ddarpariaeth a safonau plant. Er enghraifft, mae'r ymarferwyr yn defnyddio'u gwybodaeth o hyfforddiant diweddar ar gwricwlwm newydd i Gymru i ddechrau gwau'r pedwar diben i mewn i'r cynllunio. Mae hyfforddiant coginio wedi galluogi'r ymarferwyr i gyfoethogi'r cwricwlwm yn gadarn gyda chyfleoedd rheolaidd i blant goginio yn ystod sesiynau.

Mae gan y lleoliad ystod gyfoethog o adnoddau defnyddiol sydd o safon dda. Mae'r arweinwyr yn blaenoriaethu cyllid i wella'r ddarpariaeth yn gyson. Mae hefyd yn gwneud defnydd effeithiol o grantiau allanol i wella ansawdd yr ardal allanol, er enghraifft.

O ystyried safonau cadarn y plant, y ddarpariaeth effeithiol a'r arweinyddiaeth bwrpasol, mae'r lleoliad yn darparu gwerth da am arian.

Rhestr termau

AGC	Mae Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru.
Athro ymgynghorol awdurdod lleol	Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed.
Y Cyfnod Sylfaen	Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed
Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)	Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned.
Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)	Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau.
Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)	Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref.
Meysydd Dysgu	Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn: <ul style="list-style-type: none"> • datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol • medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu • datblygiad mathemategol • datblygu'r Gymraeg • gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd • datblygiad corfforol • datblygiad creadigol
Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)	Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth.

Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)	Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012
Mudiad Meithrin	Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg